

Clerc / Clerk Gwenda Owen gwenda.owen1@ntlworld.com
Trigfa, Four Mile Bridge, LL65 2EZ (01407 740046)

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor / Minutes of the Council Meeting
7.00y.h. / p.m. Nos Fercher / Wednesday 16.02.2011

1. **Croeso / Welcome.**
2. **Presennol / Present :-** Cyng./Coun. G Browne MBE(Cadeirydd/Chairman), Colin Torr, Sandra Roberts, Neil Tuck, Bill Rogerson MBE, Goronwy Parry MBE, Hazel Wilson, David Walters, Mr Brian Jones (guest speaker), Gwenda Owen (Clerc / Clerk)

Ymddiheuriadau / Apologies Cyng./Coun. *Derek Griffith, Mavis Swaine Williams*

3. **Cyflwyniad gan Mr Brian Jones ynglyn a chynllun datblygiadol ym Mharc Mwd / Presentation by Mr Jones in relation to a developmental plan for Parc Mwd.**

Cafwyd cyflwyniad gan Mr Brian Jones o Gyngor Sir Ynys Mon o gwmpas datblygu prosiect traws-genhedlaeth ym Mharc Mwd yn dilyn llwyddiant y Cyngor i ddenu arian Ewropeaidd dros dair blynedd o Ebril 2011 i ddatblygu prosiectau ar yr Ynys. Bwriad y prosiect fyddai dod a phobl o bob oedran at ei gilydd yn y gymuned. Yn y man cyntaf byddai angen cynnal cyfarfodydd ymgynghori gyda'r cyhoedd er mwyn adnabod eu anghenion, fydd yn arwain at ddatblygu cynllun addas. Y bwriad yw ymrwngw pobol a phlant o bob oedran i gyfrannu tuag at y prosiect. 'Roedd son am "trim trail", pwll naturiol i ddenu anifeiliaid/adar gwyllt, strwythurau pren i blant chwarae arnynt ayb. Fe fyddai cymhorthdal y Cyngor Sir yn cael ei fuddsoddi mewn Swyddog Datblygu er mwyn hwyluso'r prosiect ac i ariannu ymgynghorwyr proffesiynol i gynorthwyo datblygu cynllun addas a fforddiadwy ar gyfer Parc Mwd. Cytunnwyd fod angen bod yn wylriadwrus y byddai unrhyw gynllun yn fforddiadwy yn y tymor hir gan mae cyfrifoldeb y Cyngor Cymuned yw cynnal a chadw y safle. Er hynny cytunnwyd fod gwerth mewn cefnogi y prosiect. 'Roedd Cyng. Goronwy Parry yn awyddus i unrhyw gynllun gwynnwys cael cytundeb i agor y ffos a'i ffensio allan er mwyn cael cynefin naturiol yn yr ardal. / A presentation was made by Mr Brian Jones from Isle of Anglesey County Council regarding the possibility of developing an inter-generational project in Parc Mwd, following the County Council's success in securing European funding for a period of three years from April 2011 to develop intergenerational projects on the Island. The purpose of the project would be to bring together people of all ages in the community. The first step would be to arrange a public consultation meeting to identify the needs of the community, which would lead to the development of an appropriate plan. The aim is to engage people and children of all ages to contribute to the project. Discussions took place regarding the development of a "trim trail", a natural wildlife pond and wooden structures to encourage children to play, etc. The Intergenerational European Grant would be used to employ a Development Officer to facilitate the project and to fund specialist consultants to assist with the development of an affordable and appropriate plan for Parc Mwd. It was agreed that the Community Council should be cautious that any plan would be affordable in the long term as maintenance of the site was the responsibility of the Community Council. Despite this it was agreed that the project should be supported. Coun. Goronwy Parry was keen for any plan to include the possibility of reaching agreement to open the ditch and fence it out in order to maintain a natural habitat in the area. Cynnig/Eilio HW/GOP Prop/Sec.

4. Datganiad o ddiddordeb / Declaration of interest

Dim datganiad o ddiddordeb wedi ei dderbyn / *No declaration of interest received.*

5. Cofnodion cyfarfod 19.01.2011/ Minutes of the meeting 19.01.2011

Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir. / *The minutes were accepted as correct.*
Cynnig/Eilio GOP/CT Prop/Sec.

6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

1. Prosiect "Community Pride" Project (Cyng SR)

'Roedd grwp o bobl ifanc wedi ymuno a'r prosiect bellach ac roeddynt wedi bod yn casglu sbwriel. 'Roeddynt yn awyddus i wneud mwy o waith yn y gymuned ac yn awgrymu efallai y byddent yn gallu peintio giatau'r fynwent hefo "Hammerite" du. Cytunnwyd i roddi £100 tuag at brynu'r offer oedd angen ar y grwp er mwyn dechrau ar unrhyw wwaith cyn belled a fod Sandra Roberts yn cadw cofnod manwl o'r gwariant gyda thalebau. Sandra Roberts i ysgrifennu'n swyddogol at y Cyngor yn gofyn am y rhodd. Cytunnodd y Cyngor hefyd i dalu am brawf CRB i Sandra Roberts ac i ad-dalu Geraint Jones cyn belled a bod ganddo daleb. / *A group of young people had joined the project and had undertaken a litter-pick. They were keen to do more work within the community and had suggested that they may be able to paint the cemetery gates with black "Hammerite". It was agreed that £100 be donated towards the purchase of items required in order to undertake any work, on condition that Sandra Roberts maintain a detailed list of all expenditure with receipts. In the first instance, Sandra Roberts to write officially to the Council requesting a donation. The Council also agreed to pay for Sandra Roberts' CRB check and to reimburse the cost of Geraint Jones' CRB check subject to the presentation of a receipt. Cynnig/Eilio GOP/HW Prop/Sec.*

2. Parc Mwd (CT)

'Roedd problemau yn parhau gyda cheir yn achosi difrod i'r cae. 'Roedd y mater wedi cael ei adrodd i'r heddlu. 'Roeddynt wedi ymateb gyda chynnig fod aelodau yn ffonio 101 pan yn gweld ceir ar y cae yn y dyfodol. Cafwyd trafodaeth ynglyn a gosod postiau a giat ond penderfynnwyd i adael hyn nes hyd oedd cadarnhad o'r gwaith fyddai yn digwydd os y byddai Parc Mwd yn cael ei dderbyn fel rhan o brosiect Mr Brian Jones. Yn y cyfamser gofynnwyd i'r clerics ysgrifennu at Brif Gwnstabl yr heddlu yn datgan pryder a rhwystredigaethau y Cyngor ynglyn a'r fandaliaeth cyson ym Mharc Mwd ac i ofyn a fyddai'r heddlu yn gallu cynnig mwy o gefnogaeth i ddatrys y broblem./ *Problems with cars damaging the field continue. The matter had been reported to the police who had suggested that members ring 101 when they see cars on the field in future in order to catch the culprits in the act. Discussions also took place regarding the siting of some posts and a gate but it was agreed that this be deferred until confirmation of the type of work which would be undertaken in Parc Mwd should the area be accepted to participate in Mr Brian Jones's project. In the meantime, the clerk to write officially to the Chief Constable expressing the frustration of the Council around the constant vandalism in the Parc Mwd area and to ask whether the police could offer additional support to resolve the situation. Cynnig/Eilio GOP/HW Prop/Sec.*

3. Gorsaf drydan Gorad/Electricity SubStation, Gorad.

Mae gwaith wedi cychwyn ar lanhau'r ardal o gwmpas yr orsaf drydan./ *Work has commenced on tidying the area around the electricity sub station.*

4. Tan y Bryn – Gwydrau/dail ar y llwybr / Glass and leaves on paths

Mae'r ardal eisioes wedi ei lanhau. Gofynnwyd i'r clerch ysgrifennu i Adran yr Amgylchedd i ofyn os byddai y gwaith yma yn cael restru fel gwaith sydd angen ei wneud yn rheolaidd. / *This area has now been cleaned. The Clerk was requested to write to the Environmental Health Department to ask whether this work could be listed as work which requires to be undertaken regularly. Cynnig/Eilio DW/GOP Prop/Sec.*

5. Mynychu Cyfarfodydd y Cyngor Cymuned/Attendance at Community Council Meetings

Cadarnhawyd fod llythyr wedi ei yrru at y Cyng. Lynda Rycroft yn datgan nad oedd bellach yn aelod o'r Cyngor. / *It was confirmed that a letter had been sent to Coun. Lynda Rycroft to confirm that she was no longer a member of the Council.*

6. Cytundeb gwaith y clerch / Clerk's contract of employment

Gofynnwyd i'r clerch drefnu cytundeb gwaith i gydymffurfio gyda rheoleiddiau cyfreithlon. / *Clerk was requested to develop a contract of employment to comply with legislation.*

7. Trefnu cyfarfod i drafod materion cyllidol/Arrangement of a meeting to discuss financial matters.

Cyfarfod wedi ei drefnu erbyn 24 Chwefror am 7 o'r gloch yn y Pafiliwn. Clerch i adael i MSW wybod. / *Meeting arranged for 24th February at 7 p.m. in the pavilion. Clerk to advise MSW.*

Eitemau i'w trafod/ *Items to be discussed-*

Cynllun ariannol / *Financial Plan*

Asesiad Risg / *Financial Risk*

Cofrestr Asedau / *Asset Register*

Awdit ariannol / *Financial Audit*

Trosglwyddo arian o gyfrif Ynys Wen i gyfrif Rheoli Busnes / *Transfer of funds from Ynys Wen a/c to Business Manager Account*

Posibilrwydd o gadw Cronfa Fuddsodiant er mwyn ariannu estyniad i Ynys Wen a chasglu gwybodaeth ynglyn a phwy oedd perchennog y tir tu ol i'r fynwent bresennol. / *Possibility of maintaining an Investment Fund in order to fund an extension to Ynys Wen and establishing who owns the land behind the existing cemetery.*

7. Materion Plwyfol / Parochial Matters

1. Tir A55 / Land A55

Dogfennau wedi ei derbyn gan H Jenkins & Hughes. 'Roedd un gweithred yn fyr. Clerch i ysgrifennu at H Jenkins & Hughes i ofyn am y ddogfen cyn mynd ymlaen i arwyddo'r dogfennau oedd eisioes wedi eu derbyn. / *Documents had been received from H Jenkins & Hughes, however one of the deeds was missing. Clerk to write to H Jenkins and Hughes requesting this document before proceeding to sign the documents previously received.*

8. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref / Town and Country Planning –

- 1. Cais Rhif/App No. 49C251A Dymchwel yr estyniad presennol ynghyd a chodi estyniad dau lawr yn / *Demoliton of the existing extension together with the erection of a two storey extension at Arwelfa, Station Road, Valley***

Dim gwrthwynebiad cyn belled a fod yr Adran Gynllunio yn ymgynghori gyda'r cymdogion. / *No objection subject to neighbourhood consultation. Cynnig/Eilio HW/GOP Prop/Sec.*

2 Penderfyniadau Cynllunio / Planning Decision

1. **Cais Rhis/App No. 49C33B** Cais i gadw un portacabin a un cynhwysydd ar dir yn / *Retention of one portacabin and one container on land at Holyhead Rugby Club, Bryn y Mor Valley/ - Wedi ei gymeradwyo/Approved.*
2. **Cais Rhif / Application No. 49C228A** Codi adeilad amaethyddol ar dir yn / *Erection of an agricultural shed on land at Graiglwyd Ganol, Valley – Wedi ei gymeradwyo / Approved*

9. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn / Anglesey County Council Correspondence.

1. Referendwm Cynulliad Cenedlaethol Cymru – 3 Mawrth 2011 –t /The National Assembly for Wales Referendum – 3 March 2011

Hysbyseb wedi ei dderbyn ac yn cael ei arddangos yn Swyddfa'r Post. /*Notice received and displayed in the Post Office*

2. Hyfforddiant – Cod Ymddygiad / Training Code of Conduct

Nodwyd / *Noted*

3. Cynllun Datblygu Lleol Ynys Mon – Y sefyllfa Ddiweddaraf Ionawr 2011 / Ynys Mon Local Development Plan – Latest Position January 2011.

Nodwyd fod llythyr wedi ei dderbyn yn cadarnhau fod Cyngor Sir Ynys Mon a Chyngor Gwynedd yn sefydlu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd / *It was noted that a letter had been received confirming that Isle of Anglesey and Gwynedd Councils are establishing a Joint Planning Policy Unit (JPPU).*

10. Materion Ariannol / Financial Matters

Manylion Cyfrifon / *Details of Accounts – Bank Balances*

26/01/11

Treasurer - £5273.40 Business Manager - £7,444.33, Ynys Wen - £4534.63, Capital - £2,062.21

(Treasurer account - un-presented cheques £537.63 actual funds available £ 4705.77)

Derbynwyd fel yn gywir yn unol a phwynt 3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali. / *Accepted as correct in accordance with Section 3 of the Valley Community Council Financial Regulations. Cynnig/Eil CT/MSW Prop/Sec)*

11. Taliadau i'w gwneud Chwefror/ Payments to be made February

Cyflog y clerck / Clerk' salary - Ionawr	£314.00
Welsh Water (Parc Mwd)	£82.42
Mr H Hughes (Nov and Jan)	£120.00
Valley Community School	£50.00
Scottish Power (Clock)	£23.67

Mr D Walters Mileage x 2 Llangefni meetings £22.40

Taliadau wedi ei cymeradwyo yn unol a phwynt 5.3 o rheoleiddiadau Ariannol Cyngor Cymuned y Fali.. / *Payments approved in accordance with Section 5.3 of the Valley Community Council Financial Regulations.* Cynnig/Eilio CT/MSW Prop/Sec.

Arian wedi ei dderbyn: £118.52 Scottish Power / Monies received £118.52 refund Scottish Power

12. Y Cynulliad / The Assembly

13. Gohebiaeth Amrywiol / Miscellaneous Correspondence

1. **Grwp Budd-ddeilwyr 17.01.11 /Stakeholder Reference Group 17.01.11.** Nodwyd / *Noted*
Copi o ebost wedi ei gylchredu gan Unllais Cymru / Copy of email circulated by One Voice Wales. Nodwyd/*Noted*
2. **Dilyn y Fflam/Following the Flame** Nodwyd / *Noted*
3. **Taith Dros Fywyd 2011 / Walk for Life 2011** Nodwyd / *Noted*

14. Unrhyw Fusnes Arall/Any Other Business

1. Calendr/Calendar

Cyfarfod ariannol wedi ei drefnu / Financial meeting arranged.

2. Yn dilyn cyfarfod o lywodraethwyr Ysgol y Fali, mae prifathro newydd wedi ei benodi a bydd yn cychwyn yn ei swydd mis Medi 2011. / *Following a meeting of the governors at Valley School, a new headmaster has been appointed and will be commencing September 2011.*

15. Cyfarfod Nesaf / Next meeting

16.03.2011 7.30 yh /pm

